Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
ar
Y Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007

Ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2006.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrhad ar:

- Union ddiffiniad "lle caeedig iawn" a holi a oedd hyn yn cynnwys adeiladau megis cysgodfeydd bysiau
- Union ddiffiniad "cerbyd cyhoeddus" i bwrpas y rheoliadau
- Gyda golwg ar y cais gan rai sefydliadau am 'gymal machlud' ar ofynion o ran arwyddion, ac ymrwymiad yr Adran Iechyd i wneud adolygiad llawn o ddeddfwriaeth ddi-fwg dair blynedd wedi'i weithredu - p'un ai a oedd gan y Cynulliad bwerau i wneud ei adolygiad ei hun o ddeddfwriaethau yng Nghymru gyda golwg ar wneud unrhyw ddiwygiadau y tybiwyd oedd yn angenrheidiol

Mewn ymateb fe wnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y Pwyllgor:

- Yr oedd y diffiniad o "fan caeedig iawn" yn defnyddio maint arwynebedd wal adeilad fel y maen prawf ar gyfer barnu a oedd yn destun gorfodaeth o dan y rheoliadau. Byddai'n fater o benderfynu a oedd arwynebedd wal adeilad yn "gaeedig" fwy na 50 y cant, gan y byddai wedyn yn gynwysedig yn y rheoliadau. Yr oedd y meini prawf yn gyson â deddfwriaeth ddi-fwg yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yr oedd wedi'i datblygu yng ngoleuni problemau yn Iwerddon, ble yr oedd cynlluniau wedi'u datblygu gyda'r nod o drechu'r rheoliadau. Fe fyddai canllawiau i fynd gyda'r rheoliadau yn rhoi enghreifftiau o sut i ymdrin â'r mater hwn.
- Yr arweiniad sy'n gefndir i'r diffiniad o gerbydau cyhoeddus yw y dylai trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau gweithle a rennir fod yn rhai di-fwg. Yr oedd problemau wedi'u rhagweld gyda phobl sy'n rhannu ceir preifat i fynd i gyfarfodydd busnes, ac yr oedd gwelliant wedi'i gynnig oedd yn gyson â deddfwriaeth ddi-fwg yr Alban a Lloegr i wneud yn eglur y ffaith y byddai ceir preifat o'r fath yn cael eu heithrio.
- Nid oedd cyflwyno 'cymal machlud' ar gyfer arwyddion yn nwylo'r Cynulliad gan ei fod yn codi o'r Ddeddf Iechyd 2006 ac yn perthyn i'r diffiniad o drosedd sy'n digwydd mewn mangreoedd sydd ag arwyddion. Felly yr oedd yn fater i Adran Iechyd Llywodraeth y DU, yn hytrach na swyddogaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru a allai ddod dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau. Yr oedd pwnc arwyddion wedi'i godi wrth ymgynghori ac yr oedd ceisiadau wedi'u gwneud i leihau'r baich ar rai sy'n rhedeg cerbydau cyhoeddus trwy symleiddio gofynion o ran arwyddion.
- Codwyd y cwestiwn hefyd a oedd angen newid y dyddiad gweithredu arfaethedig yng Nghymru sef , 2 Ebrill 2007, nawr ein bod yn gwybod fod y gweithredu yn Lloegr wedi'i gynllunio ar gyfer Haf 2007.

Argymhellodd y Pwyllgor fod y Rheoliadau'n cael eu cymeradwyo fel y drafftiwyd hwy.

Ann Jones AC
Cadeirydd